

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR SAFONNAU A GYNHALIWDYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD GWENER, 30 MAI 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd S Maughan – Cadeirydd

G Thomas

R Lynch

Swyddogion:

Philip Morris
Riah Skillin

Llinos Lake
Kelly Watson
Mark Galvin
Oscar Roberts

Cwnsler sy'n Cynrychioli'r Ombwdsmon
Cynorthwydd Trin Achosion Cod Ymddygiad · Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru
Cynrychiolydd o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Prentis Gweinyddol Busnes - Gwasanaethau Democrataidd

177. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Mai 2025

178. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Mai 2025

--	--

179. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Mai 2025

180. Gwahardd y Cyhoedd

Y penderfyniad a wnaed	Ystyriodd y Pwyllgor a ddylid cynnal y cyfarfod mewn sesiwn gaeëdig, gan ystyried argymhellion yr Ombwdsmon y dylai aros fel sesiwn agored gan nad oedd unrhyw beth yn nogfennaeth yr Ombwdsmon nad oedd yn addas i fod yn eiddo i'r cyhoedd. Mynegodd Cynghorydd Jones awydd hefyd i'r cyfarfod gael ei gynnal yn gyhoeddus. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ar ôl ystyried yr uchod, penderfynodd y Pwyllgor gynnal y cyfarfod mewn sesiwn agored gan nodi na ddylai aelodau'r Pwyllgor geisio gwneud cyfarfodydd yn gyfrinachol yn ormodol pan nad oes angen.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Mai 2025

181. Ymchwiliad yr Ombwdsmon o dan Adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

Y penderfyniad a wnaed	Daeth y Pwyllgor ynghyd i benderfynu ar gŵyn am honiad o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau yn erbyn y Cynghorydd Lisa Lewis o Gyngor Cymuned Bracla. Yn benodol, honnwyd bod y Cynghorydd wedi torri paragraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad, sy'n cynnwys: 4(b) - Rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth at eraill. 6(1)(a) - Ni ddylai aelodau ymddwyn mewn modd y gellid, yn rhesymol, ei ystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod. Clywodd y Pwyllgor gynrychioliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cynghorydd Lisa Lewis, tra bod y Cynghorydd S Bletsoe o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Tref
------------------------	--

	Pen-y-bont ar Ogwr wedi darparu geirda cymeriad ar gyfer y Cynghorydd Lewis. Yn ystod y broses, gadawodd aelodau'r Pwyllgor yr ystafell sawl tro i ystyried agweddau ar y gwrandawriad. <u>PENDERFYNWYD:</u> <u>Cefndir</u> 1. Ar 30 Mai 2025, ystyriodd Pwyllgor Safonau'r Cyngor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") am gŵyn gan y Cynghorydd John Spanswick ("yr Achwynydd") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cyngor") a Chyngor Cymuned Bracla ("y Cyngor Tref"), fod y Cynghorydd Lisa Lewis ("yr Aelod") wedi methu â chadw at God Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau. 2. Honnwyd bod yr Aelod wedi ceisio difrïo'r Achwynydd yn faleisus ac yn fwriadol yn ystod cyfarfod Cyngor Cymuned a fynychwyd gan Gynghorwyr eraill ac aelodau o'r cyhoedd, a bod yr Aelod wedi defnyddio iaith gyhuddol yn erbyn yr Achwynydd yn ystod sgwrs ar WhatsApp. 3. Penderfynodd yr Ombwdsmon fod ymddygiad yr Aelod yn awgrymu y torrwyd Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, y paragraffau canlynol sy'n darparu: - 4(b) Rhaid i Aelodau ddangos parch a bod yn ystyriol o eraill - 6(1)(a) – Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swyddfa neu awdurdod. 4. Yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon, cafwyd copiâu o ddogfennau perthnasol gan y Cyngor, cafwyd cyfrifon tystion, a chymerwyd datganiadau gan yr Achwynydd a'r Aelod. 5. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon adroddiad ei hymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau. 6. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad yr Ombwdsmon i ddechrau a phenderfynodd y dylid rhoi cyfle i'r cyn-Aelod wneud sylwadau naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Dywedodd yr Aelod ei bod yn dymuno mynychu'r gwrandawriad. <u>Y Gwrandawriad</u> Ystyriodd y Pwyllgor p'un a fyddent yn clywed y mater yn gyhoeddus neu'n breifat. Cyflwynodd yr Aelod a'r Ombwdsmon sylwadau y dylid cynnal y gwrandawriad yn gyhoeddus. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig yr Ombwdsmon a chyflwyniadau llafar, ynghyd â'r sylwadau a
--	--

	gyflwynwyd gan yr Aelod yn unol â gweithdrefn cyn gwrandawriad y Pwyllgor. Gwnaeth yr Aelod gais i alw'r Cynghorydd Steven Bletsoe fel tyst. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth tyst cyn y gwrandawriad. Gofynnodd yr Aelod hefyd i'r Pwyllgor wrando ar ddau recordiad yr awgrymodd eu bod yn berthnasol i'r trafodion. Gwrthwynebodd yr Ombwdsmon alw ar y Cynghorydd Bletsoe ond ni wnaeth wrthwynebu cyflwyno'r recordiad ar yr amod eu bod yn cael cyfle i wrando ar y darn perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor na fyddent yn caniatáu i'r Aelod alw ar y Cynghorydd Bletsoe fel tyst. Nid oedd unrhyw ddatganiad tyst wedi'i gyflwyno. Roedd yr Aelod wedi cael nifer o gyfleoedd cynharach i gadarnhau ei thystion ac roedd wedi methu â gwneud hynny ac felly nid oedd yr Ombwdsmon wedi cael y cyfle i ystyried y dystiolaeth. Roedd y Pwyllgor yn barod i wrando ar y recordiad, ond dewisodd yr Aelod beidio â'i rannu. Felly, nid oedd yn rhan o'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Gwnaeth y Pwyllgor, yn unol â'u gweithdrefn fabwysiedig, ymdrin â'r achos mewn tri cham. Nodir isod eu penderfyniad mewn perthynas â phob cam. <u>Pennu Ffeithiau</u> Yn gyntaf, ystyriodd y Pwyllgor y ffeithiau a oedd yn destun dadl a chanfu ar gydbwysedd tebygolrwydd: • Y gwnaeth y Cynghorydd Lewis herio'r Cynghorydd Spanswick yn amhriodol yn ystod cyfarfod y Cyngor ar 23 Mawrth 2023 • Bod y Cynghorydd Lewis yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd pan wnaeth sylwadau yn y sgwrs grŵp ar WhatsApp • Y gwnaeth y Cynghorydd Lewis herio'r Cynghorydd Spanswick yn amhriodol yn ystod y sgwrs grŵp ar WhatsApp ar 24 Mawrth 2023 <u>Torri'r Cod Ymddygiad</u> Yn dilyn y cam pennu ffeithiau, aeth y Pwyllgor ati i glywed sylwadau gan yr Ombwdsmon ynghylch p'un a oedd y ffeithiau'n gyfystyr â thorri'r cod ymddygiad. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r paragraff canlynol o'r Cod Ymddygiad: 4(b) - Rhaid i Aelodau ddangos parch a bod yn ystyriol o eraill
--	---

	Gwnaed y sylw mewn cyfarfod cyhoeddus heb unrhyw dystiolaeth ategol ac felly roedd yn amhriodol. Nid oedd y Pwyllgor o'r farn bod y sylw yn hynod sarhaus nac yn warthus, fodd bynnag fe wnaethant ganfod bod y sylw yn amhriodol ei natur ac y gallai ddifrio'r Achwynydd yng ngolwg y cyhoedd. Roedd y sylw a wnaed ar y grŵp WhatsApp yn amhriodol ei natur. Cyfeiriodd at yr Achwynydd yn ôl ei enw ac roedd yn cynnwys honiadau di-sail yn awgrymu bod yr Achwynydd yn ymwybodol nad oedd y cyllid wedi'i ddefnyddio yn ôl y disgwyl. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y sylwadau a wnaed yn mynd y tu hwnt i sylw gwleidyddol a bod ganddynt y potensial i achosi niwed i enw da. Ystyriodd y Pwyllgor Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a phenderfynu, oherwydd natur y sylw nad oedd yn denu amddiffyniad uwch o dan Erthygl 10 a bod cyfiawnhad dros ddatgan yr amharwyd ar hawliau Erthygl 10. Ni chanfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r paragraff canlynol o'r Cod Ymddygiad: 6 (1) (a) – Rhaid i'r Aelod beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar ei swyddfa neu awdurdod. Wrth edrych ar ymddygiad yr Aelod, nid oedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddigon difrifol ei natur i ddwyn anfri ar y Cyngor. Roedd y sylw wedi'i gyfeirio at aelod penodol ac nid at y Cyngor ehangach. Er bod y sylwadau cychwynnol mewn fforwm cyhoeddus roeddent yn gyfyngedig eu natur a chafodd yr Aelod ei distewi'n gyflym. Gwnaed y sylwadau ychwanegol mewn grŵp WhatsApp caeedig nad oedd unrhyw aelodau cyhoeddus yn rhan ohono ac felly ni allai dwyn anfri ehangach. <u>Cosb</u> Wrth ystyried pa gosb oedd yn briodol, gwrandawodd y Pwyllgor ar sylwadau gan yr Ombwdsmon. Gwnaethant ystyried y Canllawiau Cosbau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru a ffactorau lliniaru a gwaethygu. O ran ffactorau <u>lliniaru</u>, cydnabu'r Pwyllgor na fu unrhyw doriadau yn flaenorol. Clywsant dystiolaeth cymeriad gan y Cynghorydd Steven Bletsoe gan dderbyn bod yr Aelod yn angerddol am ei rôl a'i bod yn Gy nghorydd dibrofiad ar y pryd. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr Aelod yn cael trafferth mynegi ei hun yn dda a'i bod yn rhwystredig wrth geisio cyfleu ei phwynt.
--	--

	Gan droi at ystyried <u>ffactorau gwaethygu</u>, canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu â chydabod unrhyw gamwedd ac nad oedd yn dangos unrhyw edifeirwch. Roedden nhw o'r farn y gallai hi fod wedi ceisio codi a datrys y materion mewn ffordd wahanol. Cydnabu'r Pwyllgor fod rhywfaint o ddryswch ynghylch p'un a oedd yr Aelod wedi ymgymryd â hyfforddiant cod ymddygiad. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi llofnodi ei datganiad buddiant ac roedd y cyfrifoldeb ar yr Aelod i sicrhau ei bod yn deall y Cod ac yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid ceryddu'r Aelod mewn perthynas â'r toriadau uchod o'r Cod Ymddygiad. Mae hyn yn unol â'u pwerau o dan adran 9(1)(c) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion y dylid cynnal trafodaethau ynghylch cyfleoedd hyfforddi i'r Aelod i ychwanegu gwerth gwirioneddol at y cyfraniad y gall ei wneud i Gyngor Cymuned 4 Bracla ac i sicrhau bod ganddi'r sgiliau perthnasol mewn amgylchedd heriol. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod angen ailymweld â hyfforddiant Cod Ymddygiad. Bydd y Swyddog Monitro hefyd yn cynnig ei chefnogaeth i Aelodau eraill o Gyngor Cymuned Bracla. Mae'r Aelod, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor drwy'r Hysbysiad o Benderfyniad hwn. <u>Apêl</u> Caiff yr Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i dribiwnlys apêl a dynnir o Banel Dyfarnu Cymru drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad o benderfyniad hwn i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Panel Dyfarnu www.paneldyfarnu.llyw.cymru. Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Dyddiad gwneud y penderfyniad	30 Mai 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD GWENER, 30 MAI 2025

Terfynwyd y cyfarfod yn 14:32